# Rheoliadau Adolygu Dosbarthau Etholiadol a Mannau Pleidleisio (Etholiadau Seneddol) 2006

Cyflwynodd adran 17 o Ddeddf Cofrestru a Gweinyddu Etholiadol 2013 ddyletswydd ar awdurdodau lleol i ‘gynnal a chwblhau’ adolygiadau o ddosbarthau etholiadol a mannau pleidleisio cyn 31 Ionawr 2025.

Er mwyn cydymffurfio â'r ddyletswydd hon, bydd yr adolygiad ym mwrdeistref sirol Blaenau Gwent yn cael ei gynnal rhwng 28 Hydref 2024 a 1 Chwefror 2025.

Hoffem wahodd sylwadau cychwynnol gan etholwyr ynghylch hwylustod pleidleisio mewn gorsafoedd pleidleisio a ddefnyddir ar hyn o bryd ar gyfer etholiadau a byddem yn croesawu awgrymiadau ar gyfer safleoedd amgen.

Bydd yr adolygiad yn ceisio cadarnhau pa mor addas mae lleoliad y gorsafoedd pleidleisio ym mhob ardal etholiadol gan gyfeirio yn benodol at faterion anabledd a mynediad. Byddem yn croesawu sylwadau ar gynigion yr awdurdod gan unrhyw berson neu gorff sydd ag arbenigedd mewn materion mynediad yn achos pobl ag unrhyw fath o anabledd.

Fel rhan o'r adolygiad bydd y Swyddog Canlyniadau Dros Dro yn gwneud sylwadau ar y gorsafoedd pleidleisio arfaethedig.

Bydd rhagor o wybodaeth, gan gynnwys unrhyw sylwadau gan y Swyddog Canlyniadau Dros Dro, am yr adolygiad yn cael ei chyhoeddi ar www.blaenau-gwent.gov.uk

Gellir cyflwyno argymhellion ar bapur i Adolygiad Pleidleisio, Cofrestru Etholiadol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, Y Swyddfeydd Cyffredionl, Heol Gwaith Dur, Glyn Ebwy NP23 6DN neu mewn e-bost electoralservices@blaenau-gwent.gov.uk

**Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno sylwadau yw 5yp ar 22 Tachwedd 2024.**

Andrea Jones
Pennaeth Cydymffurfiaeth Gyfreithiol a Chorfforaethol
Y Swyddfeydd Cyffredinol
Heol Gwaith Dur
Glyn Ebwy
NP23 6DN

28 Hydref 2024